Canllawiau Gweithio o Bell

1. Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn rhan o gyfres o ganllawiau sy'n ymdrin â gweithio o bell, gweithio unig a gweithio mewn tywydd gwael.

2. Diffiniad o weithio o bell

2.1 Gall gweithio o bell ddigwydd ar ei ben ei hun neu fel rhan o grŵp ac fel arfer mae'n cael ei ddiffinio fel bod i ffwrdd o gymunedau, gwasanaethau brys, yn agored i niwed petai rhywbeth yn digwydd ac allan o gyrraedd hwylus y gwasanaethau brys.

3. Lleihau risg

3.1 Dylid cynnal asesiad risg priodol a dylid dilyn yr hierarchaeth risg er mwyn dileu, lleihau neu reoli'r peryglon a nodwyd.

3.2 Dylid dilyn yr arweiniad yn y Canllawiau Gweithio Unigol a dylid cymryd gofal ychwanegol i sicrhau bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu am natur a lleoliad yr ymweliad safle.

3.3 Dylid ystyried a ddylai'r dasg gael ei gwneud mewn parau yn hytrach nag fel unigolyn. Hefyd, os mai dyma'r tro cyntaf i'r dasg gael ei gwneud neu fod y lleoliad yn anghyfarwydd, unwaith eto, dylid ystyried gweithio mewn parau.

3.4 Lle maent ar gael, dylech gario radio. Dylid bod yn ofalus i sicrhau eu bod yn cael eu hegnio'n llawn ymlaen llaw.

3.5 Dylai ffonau symudol gael eu hegnio hefyd a dylid ystyried cael batri wrth gefn h.y. egniwr batri neu ges cludadwy.

3.6 Dylid gwisgo dillad ac esgidiau addas.

3.7 Dylid cario offer ychwanegol addas rhag ofn i rywbeth ddigwyddiad e.e. chwiban, pecyn cymorth cyntaf, cysgodfa grŵp, dillad ychwanegol, bwyd a diod ac ati

3.8 Os yw rhywun yn gweithio mewn lleoliad anghysbell am gyfnod hir dylid darparu cyfleusterau lles priodol.